**Ei Theilyngdod Y Maer, Y Cynghorydd Margaret Davies 2016 - 2017**

Cafodd y Cynghorydd Margaret Davies ei hurddo i'w swydd fel Maer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar 18 Mai 2016. Mae hi wedi cynrychioli Adran Etholiadol Cyfarthfa ers mis Tachwedd 2012 yn dilyn isetholiad.

Mae Margaret wedi bod yn Llywodraethwr Ysgol mewn pedwar sefydliad gwahanol yn y Fwrdeistref Sirol. Roedd hi'n Gadeirydd y Llywodraethwyr ym Meithrinfa Trefechan am bedair blynedd, yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd y Graig yng Nghefn Coed am 10 mlynedd, yn Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cyfarthfa ac yn Llywodraethwr yn Ysgol Coed-y-Dderwen yng Ngellideg am 8 mlynedd. Ar hyn o bryd mae hi'n Ddirprwy Gadeirydd y Llywodraethwyr. Cafodd ei phenodi ar Bwyllgor Craffu Ysgolion ac mae hi hefyd yn cynrychioli'r Cyngor fel ymddiriedolwr gyda CAB.

Fel Dinesydd Cyntaf Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, mae dyletswyddau'r Cynghorydd Davies yn cynnwys cadeirio cyfarfodydd llawn y Cyngor a chynrychioli'r Cyngor mewn achlysuron ffurfiol a seremonïol oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd hi'n croesawu ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol ac yn mynychu digwyddiadau chwaraeon a drefnir gan bobl leol a sefydliadau lleol.

Yn ystod ei blwyddyn yn y swydd, bydd y Maer yn brysur yn codi arian i'w helusen ddewisedig, sef Ysbyty'r Tywysog Siarl. Bydd yr holl arian a godir yn mynd tuag at brynu offer hanfodol i'r ysbyty. Bydd yr holl arian a godir yn cael ei ddefnyddio'n unswydd er budd ein cymuned.

Dirprwy Faer, Cynghorydd Sian Slater.